## CALU – GWLAD - Mehefin 2008

## Rheoli coetiroedd ar gyfer adar hela

*Gan Amy Dutton - CALU*

MAE gan lawer o ffermwyr a thirfeddianwyr Cymru leiniau o goetir heb eu rheoli. Cynhaliwyd gweithdy yn ddiweddar gan CALU (Canolfan Defnydd Tir Amgen) i edrych ar sut y gellid rheoli'r ardaloedd hyn i greu cynefin delfrydol i adar hela, yn enwedig ffesantod.

Fel arfer bydd angen rhoi adar wedi'u magu, sydd angen eu rhoi mewn cawell i'w diogelu rhag ysglyfaethwyr, ymysg heidiau o ffesantod gwyllt. Bydd y gawell ryddhau yn darparu bwyd, cysgod a safleoedd clwydo i'r adar ifanc wrth iddynt ddod yn gyfarwydd â byw yn y coetir. Mae'n hanfodol rheoli'r cynefin yn y gawell a'i chyffiniau'n briodol.

Mae ymyl y coetir yn lle delfrydol i roi'r gawell, ar yr amod bod y tyfiant ar y ddaear yn cael ei reoli'n gywir. Mae'n well osgoi ardaloedd sy'n werthfawr iawn i fywyd gwyllt megis lleiniau sy'n llawn fflora.

Mae angen bod digon o dyfiant isel (o dan 1m) ar y safle ar gyfer yr adar yn ystod y dydd a digon o lwyni canolig eu maint (1-2m) iddynt glwydo yn y nos. Dylai traean o'r ardal fod yn dir agored; traean yn dyfiant isle a thraean yn ardal glwydo â thyfiant maint canolig.

Mae angen i'r llystyfiant fod wedi ei wasgaru'n gyfartal drwy'r gawell fel bo'r adar wedi'u gwasgaru'n gyfartal. Os yw'r adar yn tueddu i gasglu'n glwstwr mewn un ardal, gall y raddfa stocio uwch arwain at ddirywiad yn iechyd yr adar. Y dwysedd a argymhellir ar gyfer ffesantod mewn cawell yw 700 aderyn / hectar o gawell.

Fel arfer, adeiladir y cewyll o goed a rhwyll un fodfedd (2.5cm). Dylai'r gawell fod tua 1.8m o uchder, ond bydd union safle a nifer yr adar sy'n cael eu magu yn dylanwadu ar union siâp a maint y gawell. 'Safle dydd' yw'r enw ar yr ail ardal sydd ei hangen ar gyfer adar hela. Ardal o goetir o ansawdd da yw hon gyda digon o dyfiant maint canolig ar gyfer clwydo.

I reoli coetir yn dda ar gyfer adar hela bydd angen teneuo cryn dipyn ar goetir trwchus er mwyn i'r golau dreiddio i'r ddaear. Bydd hyn yn galluogi planhigion i dyfu'n barhaus yn naturiol a galluogi mieri a llwyni i ddatblygu. Nid yw'r rhywogaethau yn y coetir yn bwysig, tra bod tyfiant isel a chanolig ar gael.

Gall coedlan gyll wedi'i rheoli mewn system gylchdro fod yn ddelfrydol ar gyfer ffesantod.

Yn aml, wrth reoli coetiroedd ar gyfer adar hela daw'r coetir yn fwy gwerthfawr ar gyfer mathau eraill o fywyd gwyllt a bioamrywiaeth yn gyffredinol.

Mae modd troi coetir trwchus heb ei reoli yn gynefin rhagorol ar gyfer ffesantod gyda thyfiant isel a chanolig mewn cyn lleied â 3-5 mlynedd.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â CALU ar 01248 680450 neu www.calu.bangor.ac.uk. Neu, ewch i wefan The Game and Wildlife Conservation Trust sef www.gct.org.uk.